OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 812

## Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

## RHAN VI —

## Y SAFLE

**Ffitrwydd y safle**

**20.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig beidio â defnyddio safle ar gyfer gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, oni bai ei fod mewn lleoliad sy'n addas ar gyfer sicrhau'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben, a bod dyluniad a chynllun ffisegol y safle yn addas ar gyfer sicrhau'r nodau a'r amcanion hynny.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl rannau o'r safle perthnasol sy'n cael eu defnyddio gan blant—

(a) wedi'u goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n ddigonol;

(b) yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod;

(c) wedi'u dodrefnu a'u cyfarparu'n addas;

(ch) o adeiladwaith cadarn ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da y tu allan a'r tu mewn;

(d) yn lân ac wedi'u haddurno a'u cynnal a'u cadw'n rhesymol; a

(dd) wedi'u cyfarparu â'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol, ac wedi'u haddasu yn ôl yr angen, i ddiwallu'r anghenion sy'n deillio o anabledd unrhyw blentyn perthnasol.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y safle perthnasol yn cael ei gadw'n rhydd rhag arogleuon drwg a gwneud trefniadau addas ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol a gwastraff clinigol.

(4) Pan fydd gofal yn cael ei ddarparu mewn safle dan do rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yna ddigon o'r cyfleusterau canlynol ar y safle perthnasol i blant perthnasol eu defnyddio o dan amodau sy'n caniatáu preifatrwydd priodol—

(a) nifer digonol o fasnau ymolchi gyda chyflenwad dwr rhedegog poeth ac oer, a

(b) nifer digonol o doiledau, sy'n addas i blant perthnasol,

ar gyfer nifer a rhyw'r plant perthnasol.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, os yw bwyd yn cael ei ddarparu mewn safle dan do, fod cyfleusterau a chyfarpar addas a digonol ar gyfer paratoi, storio a bwyta bwyd ar y safle perthnasol.

**Rhagofalon tân**

**21.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) cymryd rhagofalon digonol rhag risg tân, gan gynnwys darparu cyfarpar atal a chanfod tân ;

(b) darparu dulliau boddhaol ar gyfer dianc os bydd tân;

(c) gwneud trefniadau digonol ar gyfer—

(i) canfod, cyfyngu a diffodd tanau;

(ii) rhoi rhybuddion tân;

(iii) gwacáu'r adeilad os digwydd tân;

(iv) cynnal a chadw'r holl offer atal a chanfod tân; a

(v) adolygu'r rhagofalon tân, a phrofi'r offer atal a chanfod tân, bob hyn a hyn fel y bo'n addas;

(ch) gwneud trefniadau i'r personau sy'n gweithio gyda phlant perthnasol ar safle perthnasol gael hyfforddiant addas mewn atal tân;

(d) sicrhau, drwy gyfrwng driliau ac ymarferion tân bob hyn a hyn fel y bo'n addas, fod y personau sy'n gweithio gyda phlant perthnasol ac, i'r graddau y mae'n ymarferol, y plant perthnasol, yn ymwybodol o'r weithdrefn sydd i'w dilyn os digwydd tân; ac

(dd) ymgynghori â'r awdurdod tân am y materion a ddisgrifiwyd yn is-baragraffau (a) i (d).

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod tân" yw'r awdurdod sy'n cyflawni, yn yr ardal lle mae'r safle perthnasol, swyddogaethau awdurdod tân o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947([1]).

(**1**) 1947 p.41.